GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD 2021-22

Mae cronfa 'Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd' bellach ar agor ar gyfer ceisiadau. Rydym yn parhau i weinyddu'r gronfa i gefnogi prosiectau bychain sydd yn cael eu harwain gan bobl ifanc 14-25 oed, ac sy'n annog mwy o bobl ifanc i wirfoddoli. Gyda £5,000 ar gael, gall ceisiadau ymgeisio am hyd at £1,000 ar gyfer gwireddu prosiectau cymunedol gan bobl ifanc.

Eleni, mae pwyslais ar gwrdd un o'r saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

SUT I WNEUD CAIS?

Cysylltwch gyda Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd
07789 696 340 neu
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
am sgwrs neu am becyn cais

Dyddiad cau 15/10/2021

MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales